

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

THOMAS, ALBAN (bu farw 1740?), clerigwr, bardd, a chyfieithydd

Enw: Alban Thomas
Dyddiad marw: 1740?
Plentyn: Alban Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr, bardd, a chyfieithydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: William Llewelyn Davies

Gŵr o'r Rhos, Blaenporth, Sir Aberteifi, a churad Blaenporth a Thremain, 1722-40. Yr oedd yn flaenllaw yn yr adfywiad llenyddol yng Nghastellnewydd Emlyn a'r cylch yn niwedd y 17eg ganrif a dechrau'r ganrif ddilynol; am fanylion gweler **Ifano Jones**, *Hist. of Printing and Printers in Wales*, a'r cyfeiriadau a roddir yno. I lyfryddwyr y mae Alban Thomas o ddiddordeb fel awdur *Cân o Senn i'w hên Feistr Tobacco*, 1718, sef un o'r ddau waith cyntaf (dwy faled) a argraffodd **Isaac Carter** yn ei wasg yn Nhrefhedyn (sef Adpar), yng ngwaelod Sir Aberteifi. Drosto ef (' A. T. ') a 'J. Ll.' yr argraffodd **Carter** (yn 1722) *Dwysfawr Rym Buchedd Grefyddol ... Gwedi ei Gyfieithu i'r Gymraeg*; Alban Thomas oedd cyfieithydd y llyfr, a gyflwynwyd ganddo i Stephan Parri, Neuadd Trefawr, aelod seneddol, a Walter Llwyd o Goedmor, siryf sir Aberteifi. Ef hefyd oedd cyfieithydd *Llythyr Bugeilaidd oddi wrth Weinidog at ei Blwyfolion* , 1729, a argraffwyd gan **Carter** wedi iddo symud ei wasg i Gaerfyrddin. Ceir caniadau ganddo, yn y mesurau caeth a'r mesurau rhydd, yn *Llanstephan MS 133* , a *Llanstephan MS 145* , **NLW MS 5A** a **NLW MS 19B** ; defnyddiwyd **NLW MS 19B** gan **John Howell** ('**Ioan ab Hywel**') pan oedd yn paratoi *Blodau Dyfed* (Caerfyrddin, 1824) (gweler hefyd Tonn MS. 16 yn Llyfrgell Dinas Caerdydd).

Mab iddo oedd

ALBAN THOMAS (1686 - 1771), meddyg yn Llundain

Bu yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Tua'r flwyddyn 1708 yr oedd yn llyfrgellydd Amgueddfa Ashmole, Rhydychen, ac yn 1713 yn is-ysgrifennydd y Royal Society, Llundain. Yn 1719 graddiodd yn M.D. yn Aberdeen. Cesglir mai ei gysylltiad ag Aberdeen a arweiniodd rai o awdurdodau'r Llywodraeth i gredu ei fod yn cydymdeimlo â dyheadau'r Jacobitiaid; gwyddys iddo orfod gadael Llundain yn sydyn ym mis Mawrth 1722 a bwrw cyfnod cyn mentro dychwelyd. Methodd, fodd bynnag, ag ail-ddechrau ar ei waith fel meddyg yn Llundain a bu raid iddo fodloni ar ddilyn yr alwedigaeth honno yn ei ardal enedigol o hynny ymlaen. Megis yr oedd y tad yn flaenllaw ymysg gŵyr yn nyffryn isaf afon Teifi a oedd yn weithgar yn cynhyrchu llenyddiaeth, felly hefyd yr oedd y mab yn ymddiddori yng ngwaith ei gyfaill **Moses Williams** ac eraill ar linellau a oedd yn gyffelyb i raddau. Dyna, y mae'n ddiau, sydd yn cyfrif paham yr oedd yn barod i dderbyn tanysgrifiadau (' Subscriptions taken in by Mr. Alban Thomas at the Royal Society's House in Crane-Court, Fleet Street,' Llundain) yn 1719 i'r gwaith - ' *Collections of Writings in the Welsh Tongue, to the beginning of the Sixteenth Century, to be printed in several Volumes in Octavo* ' - yr arfaethai **Moses Williams** ei gyhoeddi. Dyfynnir yn *W. Wales Hist. Records*, vii, 218-9, ddau lythyr a anfonodd o Gastellnewydd Emlyn yn 1738 at Syr Hans Sloane; dywedir hefyd, *ibid.*, 216, iddo gyhoeddi yn 1718 *A List of Fellows of the Royal Society of London*. Rhydd **S. R. Meyrick** (*The History and Antiquities of the County of Cardigan*) hanes sut y bu iddo briodi'r ferch y dymunai **Moses Williams** ei phriodi; ei ail wraig oedd Margaret Jones, Tyglyn Aeron, Sir Aberteifi, merch siryf sir Aberteifi.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddwyd uchod ychwaneger:

Archifau LIGC: **NLW MS 309E**

John Davies, *Bywyd a Gwaith Moses Williams, (1685-1742)* (1937)

D. Silvan Evans (gol.), *Gwaith y Parch. Walter Davies (Gwallter Mechain)* (Caerfyrddin 1866-1868)

J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (London 1908-11)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q20804659**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Arddull APA



Davies, W. Ll., (1953). THOMAS, ALBAN (bu farw 1740?), clerigwr, bardd, a chyfieithydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-THOM-ALB-1740>

Preifatwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodd gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government